**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Luis von Ahn
Cyd-sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol
Duolingo

25 Hydref 2023

Annwyl Dr von Ahn,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn penderfyniad diweddar Duolingo i oedi datblygiad y cwrs Cymraeg o'r Saesneg erbyn diwedd y flwyddyn 2023.

Ers i'r penderfyniad gael ei gyfleu, mae llawer o ddysgwyr yng Nghymru a thu hwnt wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i ddweud pa mor werthfawr yw'r cwrs Cymraeg iddyn nhw fel adnodd yn eu taith i ddod yn siaradwyr Cymraeg.

Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg, un o'r prif bethau rwy'n gyfrifol amdano yw arwain ein gwaith i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg ac i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Mae ein strategaeth Cymraeg 2050 yn rhoi addysg yn ganolog i'n gweledigaeth i ddatblygu a chynnal y Gymraeg ac mae cael amrywiaeth o gyfleoedd ac adnoddau ar waith i bobl ddysgu Cymraeg yn allweddol i hyn.

Mae llwyddiant diweddar cwrs Cymraeg Duolingo yn dangos bod gwir alw i ddysgu'r iaith. Mae hyn yn newyddion gwych i ni wrth i ni weithio i gyflawni ein gweledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg ac rwyf am sicrhau y gallwn adeiladu ar y llwyddiant hwn.

Er fy mod yn gwerthfawrogi y bydd y cwrs Cymraeg o'r Saesneg yn aros ar blatfform Duolingo, rwy'n ofni y bydd y penderfyniad i beidio â diweddaru ei gynnwys yn niweidiol yn y tymor hir gan y gallai'r cwrs ddechrau colli ei berthnasedd i ddysgwyr. Rwy'n gofyn felly i Duolingo ailystyried y penderfyniad i oedi datblygiad y cwrs Cymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd cael cwrs Cymraeg cyfredol a pherthnasol ar Duolingo yn cael effaith gadarnhaol enfawr i'r rhai sy'n dysgu ar hyn o bryd ac i'r rhai sy'n dewis dysgu'r iaith yn y dyfodol. Byddem yn awyddus i weithio gyda chi i edrych ar sut y gallwn ni, ynghyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gefnogi datblygiad parhaus y cwrs.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yr eiddoch yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language